



## Hysbysiad Preifatrwydd

### Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Cyngor Bro Morgannwg

Mae adran Adnoddau Dynol a Datblygiad Sefydliadol Cyngor Bro Morgannwg yn casglu a phrosesu data personol sy'n berthnasol i ymgeiswyr am swyddi, cyflogeion, gweithwyr, gwirfoddolwyr, prentisiaid ac ymgynghorwyr. Mae'r sefydliad yn ymrwmo i fod yn ddidwyll ynghylch sut y mae'n casglu ac yn defnyddio'r data ac wrth gyflawni'r ymrwymadau diogelu data sydd arno. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn rhan o Hysbysiad Preifatrwydd llawn y Cyngor a geir yn [www.valeofglamorgan.gov.uk](http://www.valeofglamorgan.gov.uk).

#### **Pam mae Cyngor Bro Morgannwg yn prosesu data personol?**

Mae arnom angen prosesu data i gymryd camau ar eich cais cyn mynd i gontract â chi. Mae prosesu data personol gan ymgeiswyr am swyddi'n rhoi'r gallu i ni reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd ymgeisydd ar gyfer cyflogaeth a phenderfynu i bwy y dylem gynnig y swydd. Efallai y bydd arnom angen prosesu data gan ymgeiswyr am swyddi er mwyn ymateb i ac amddiffyn yn erbyn achosion cyfreithiol. Wedi i ni eich cyflogi, proseswn eich data fel rhan o'n contract gwaith â chi.

Mewn rhai achosion, mae angen i ni brosesu data a sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol sydd arnom. Er enghraifft, mae'n orfodol profi cymhwyster ymgeisydd llwyddiannus i weithio yn y DU cyn i'w gyflogaeth gychwyn neu brofi ei statws cofrestru gyda chorff proffesiynol fel mater o ofyn cyfreithiol.

Efallai y byddwn yn prosesu categorïau arbennig yn gysylltiedig â'r nodweddion a ddiogelir. Er enghraifft, mae'n bosibl y casglwn wybodaeth ynghylch a yw ymgeiswyr yn anabl er mwyn gwneud addasiadau rhesymol i ymgeiswyr ag anabledd. Fel rhan o Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gofyn i ni brosesu data (megis cefndir ethnig / cyfeiriadedd rhywiol) i fonitro'r ystadegau recriwtio a chyflogaeth. Rydym yn prosesu data felly er mwyn cyflawni'r gofynion sydd arnom a mynnu hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Nid oes gofyn statudol na chytundebol arnoch i roi data yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os nad ydych yn rhoi data personol penodol, mae'n bosibl na allwn brosesu eich cais yn gywir neu o gwbl.

#### **Sut rydym yn casglu eich data personol?**

Gellir casglu gwybodaeth bersonol drwy'r dulliau canlynol:

- Ffurflen gais (ar-lein/e-bost/copi caled)
- Ffurflen Monitro Cydraddoldeb
- Ffurflen Manylion Banc
- Gofyn am eirdaon gan gyflogwr blaenorol
- Holiadur Iechyd Galwedigaethol Cyn Cyflogaeth
- Ffurflen gyflogaeth AD (e.e. Rheoli Presenoldeb yn y Gwaith)
- Hunan-wasanaeth Oracle
- Adrannau Mewnol y Cyngor

## **Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu gennych?**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn casglu ystod o wybodaeth amdanoch. Gallai hyn gynnwys:

- Enw, cyfeiriad a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriadau e-bost a rhif ffôn a'ch statws priodasol;
- Manylion eich cymwysterau, hyfforddiant, sgiliau, profiad a hanes cyflogaeth;
- Gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU a'ch manylion adnabod gan gynnwys pasbort a gwybodaeth mewn perthynas â'ch statws mewn fudo a hawl i weithio i ni.
- A oes gennych anabledd y bydd angen i'r sefydliad wneud addasiadau ar ei gyfer;
- Eich manylion banc a gwybodaeth ynghylch eich statws treth gan gynnwys eich rhif yswiriant gwladol;
- Gwybodaeth ynghylch eich lefel cyflog presennol (gan gynnwys manylion cyflog blaenorol) yn cynnwys hawliau budd-daliadau, rolau a lleoliadau presennol a blaenorol, oriau gwaith, manylion ail-raddio, pensiwn a hawl gwyliau;
- Gwybodaeth feddygol yn berthnasol i'r adran Iechyd Galwedigaethol;
- Gwybodaeth yn berthnasol â chymau disgyblu neu ymchwiliadau cwyn ac achosion yn eich cynnwys (p'un ai chi oedd prif wrthrych y gweithrediadau ai peidio);
- Gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch perfformiad, datblygiad proffesiynol ac ymddygiad yn y gwaith;
- Os ydych wedi rhoi enw cyswllt a rhif mewn achos o argyfwng, sicrhewch fod y person wedi rhoi ei gydsyniad i rannu ei wybodaeth â Chyngor Bro Morgannwg at y diben hwn.

Mae'n bosibl y casglwn ddata personol amdanoch gan drydydd parti, megis geir daon gan gyn-gyflogwyr.

Caiff data ei storio mewn ystod o leoedd gwahanol, gan gynnwys ar eich cofnod cais, yn system Oracle AD/y gyflogres ac ar systemau TG eraill (e.e. yn cynnwys iDev ac e-bost).

Fel rhan o'r broses gwirio cyflogaeth, mae gan y Cyngor, oherwydd ei statws fel Corff Cofrestredig, fynediad at wybodaeth am gofnodion troseddol trwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Diben y GDG yw galluogi sefydliadau i wneud penderfyniadau recriwtio diogel. Fel rhan o hyn, bydd y Cyngor yn sicrhau bod ymgeiswyr yn ymwybodol o Hysbysiad Preifatrwydd y GDG cyn cwblhau ffurflen gais. Mae manylion ar gael ym mholisi GDG Cyngor Bro Morgannwg, sydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor.

## **Pwy gaiff fynediad at y data?**

Mae'n bosibl y rhennir eich gwybodaeth ag adrannau mewnol Cyngor Bro Morgannwg. Gall hyn fod â chyfwelwyr a fu'n rhan o'r broses recriwtio, rheolwyr yn yr ardal fusnes lle mae swydd wag a staff TG os oes angen mynediad at y data ar gyfer perfformio'r rôl. Ni rannwn eich data â thrydydd parti ac eithrio pan fo'ch cais am waith yn llwyddiannus ac rydym yn cynnig cyflogaeth i chi. Yna, rhannwn eich data â chyn-gyflogwyr er mwyn cael geir daon ar eich cyfer, darparwyr profi eich cefndir cyflogaeth ar gyfer y profion angenrheidiol a phan fo angen, i sicrhau y gellir gwneud yr holl brofion cyn-cyflogi.

Efallai y rhannwn eich data personol â'r canlynol:

- Archwilydd Cyffredinol Cymru;
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol neu Pensiynau Athrawon (pa un bynnag sy'n berthnasol i chi);
- Unrhyw sefydliad/corff rydych wedi dewis ymuno ag o trwy gyfraniadau o'ch cyflog e.e. aelodaeth o'r undeb llafur.
- CThEM, Llysoedd EM.

Yn ogystal, gwnawn unrhyw ddatgeliadau sy'n ofynnol yn ôl y gyfraith ac mae'n bosibl y rhannwn yr wybodaeth â chyrrff eraill sy'n gyfrifol am adnabod/atal twyll neu archwilio/gweinyddu arian cyhoeddus i sicrhau y caiff arian ei dargedu a'i wario yn y ffordd fwyaf priodol a chost-effeithiol.

### **Am ba hyd y bydd Cyngor Bro Morgannwg yn cadw data?**

Os yw eich cais am waith yn aflwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data ar ffeil am 6 mis wedi diwedd y broses recriwtio berthnasol i'w ystyried ar gyfer cyfleoedd gwaith yn y dyfodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu wedi i chi ddiddymu eich cydsyniad, dilëir neu dinisttir eich data.

Os yw eich cais am waith yn llwyddiannus, trosglwyddir y data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio i'ch ffeil Adnoddau Dynol (drydanol) a'i gadw yn ystod eich cyflogaeth.

Mae amserlen cadw'r Cyngor ar gael i'w weld ar Fewnrwyd y Cyngor a gwefan gyhoeddus y Cyngor.

Rydym yn cymryd diogelwch eich data o ddifri. Mae gennym bolisiau mewnol a dulliau rheoli mewn lle i sicrhau na cholli eich data, ei ddinistrio ar gam, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac na chaiff unrhyw un fynediad ato ac eithrio ein cyflogeion wrth berfformio eu dyletswyddau'n briodol.

### **Eich Hawliau**

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch wneud y canlynol:

- Cael mynediad at eich data a chael copi ohono ar gais;
- Gofyn i'r sefydliad gywiro data anghywir neu anghyflawn;
- Gofyn i'r sefydliad ddileu neu stopio prosesu eich data, er enghraifft pan nad oes angen y data mwyach at ddibenion prosesu;
- Gwrthwynebu prosesu eich data.

## **Cwynion neu Ymholiadau**

Mae Cyngor Bro Morgannwg yn ceisio cyrraedd y safonau uchaf wrth gasglu a defnyddio gwybodaeth bersonol. Am y rheswm hwn, rydym yn cymryd unrhyw gwynion a dderbyniwn o ddifri. Rydym yn annog pobl i roi gwybod i ni os ydynt yn credu bod sut rydym yn casglu neu'n defnyddio eich gwybodaeth yn annheg, yn gamarweiniol neu'n amhriodol.

Nid yw'r hysbysiad preifatrwydd yn rhoi manylion cyflawn pob agwedd ar ein casgliad a defnydd o'ch gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, rydym yn fodlon rhoi unrhyw wybodaeth ychwanegol neu eglurhad sydd ei angen. Dylech anfon unrhyw gais am hyn i'r cyfeiriad isod:

Uned Rhyddid Gwybodaeth  
Cyngor Bro Morgannwg  
Swyddfeydd Dinesig  
Heol Holtwn  
Y Barri  
CF63 4RU

E-bost: [FOIUnit@Valeofglamorgan.gov.uk](mailto:FOIUnit@Valeofglamorgan.gov.uk)  
Ffôn: 01446 700111

Os ydych am wneud cwyn ynghylch y ffordd rydym wedi prosesu eich gwybodaeth bersonol, gallwch gysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth fel y corff statudol sy'n goruchwyllo cyfraith diogelu data:

### **Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru**

Ail Lawr, Tŷ Churchill  
Ffordd Churchill  
Caerdydd  
CF10 2HH

E-bost: [wales@ico.org.uk](mailto:wales@ico.org.uk)  
Ffôn: 02920 678400